Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Arlwyo |
| **SWYDD:** | Cynorthwy-ydd Cegin Cyffredinol |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR02 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Cogydd/Uwch Gynorthwyydd yr Ystafell Fwyta |

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Cynorthwyo i baratoi, cyflwyno a gweini prydau ysgol gan sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a pholisi cyfredol ym maes Iechyd a Diogelwch a Diogelwch a Hylendid Bwyd.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Paratoi a chyflwyno bwyd.
- Gweini prydau i gwsmeriaid.
- Cynorthwyo i ddarparu amgylchedd diogel a glân i'r disgyblion a'r staff.
- Cynnal safonau hylendid a Iechyd a Diogelwch yn y gegin, yn unol â'r safonau sicrwydd ansawdd.
- Derbyn a storio cyflenwadau.
- Cyflawni dyletswyddau eraill tebyg ar gais y Cogydd/Uwch Gynorthwyydd yr Ystafell Fwyta.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Fanyleb y Person

## Cynorthwy-ydd Cegin Cyffredinol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Profiad blaenorol ym maes arlwyo.<br>• Tystysgrif Hylendid Bwyd Sylfaenol.<br>• Codi a Chario. | | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd.<br>• Safonau uchel o ran gofal cwsmeriaid. | | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd a gofal cwsmeriaid o safon uchel.<br>• Gweithio fel aelod o dîm.<br>• Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu da.<br>• Prydlondeb a lefel uchel o bresenoldeb yn y gwaith.<br>• Hunangymhelliant a hyblygrwydd.<br>• Hyblyg oherwydd gallai'r oriau gwaith newid i gyd-fynd ag anghenion yr uned.<br>• Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol. |